# Wildflower Guide

Road verges and amenity grasslands which are mown frequently don't look like there will be any wildflowers present. However, when allowed to grow and flower you'll be amazed at the diversity of wildflowers you can find when you know what to look for.

Some wildflowers aren't the most showy plants but provide the best source of nectar and pollen for pollinators like bees and butterflies.

Most of these plants are perennials which means they will grow back each year, but it is important to let them flower and set seed before mowing. Here's a guide to some of the common plants you can find in our green spaces.

# Spring

## Lesser Celandine



*(Ficaria verna)*
Height: 5 cm
March

One of the earliest flowering spring plants, it grows in yellow carpets around the base of hedgerows and trees. Lesser Celandine has bright yellow petals and heart-shaped leaves. The flowers provide vital nectar to bumblebee queens emerging early from hibernation.

## Primrose



*(Primula vulgaris)*
Height: 10 cm
March

Usually found along hedgerows and banks, primroses have pale-yellow petals and distinctive wrinkly leaves. Primroses provide a nectar source for early butterflies like Brimstone and Small Tortoiseshell.



## Dandelion



*(Taraxacum officinalis)*
Height: 30 cm
April

Bright yellow flowers and the familiar 'clock' of seeds make Dandelions a very recognisable wildflower. Unfairly thought of as grassland 'weeds', Dandelions are a brilliant source of nectar and pollen for bees and other pollinators.

## Cowslip



*(Primula veris)*
Height: 25 cm
April

Cowslips are closely related to Primroses and have the similar wrinkly leaves but prefers to grow in sunny grasslands. Its yellow flowers grow in clusters at the end of upright stems and are particularly suited to long-tongued pollinators, such as the hairy footed flower bee.

## Buttercups



*(Ranunculus sp.)*
Height: up to 60 cm
May

Buttercups begin to flower in May and quickly cover the landscape in golden yellow flowers, usually with 5 petals. There are 3 common species which are found in grasslands, Bulbous, Creeping and Meadow Buttercup. Creeping Buttercup can survive the mower so is common in parks and verges.

## Germander Speedwell



*(Veronica chamaedrys)*
Height: 20 cm
May

The unusually electric-blue petals of Germander Speedwell, make it easy to spot the small flowers amongst the grass. It grows in scrambling patches amongst long grass and is an excellent source of nectar for solitary bees.

## Red Dead-nettle



*(Lamium purpureum)*
Height: 20 cm
April

This little flower is a common annual plant on verges and disturbed ground, it only lives for one season and needs to be allowed to set seed each year if plants are to grow the following year. It flowers nearly all year-round with little pink 'hoods' which are nestled between leaves at the top of the plant and loved by bumblebees.

Dead-nettles won't sting you like Stinging Nettles, which are also really good for pollinators. Many butterflies - including Peacock and Red Admiral - lay their eggs on their prickly leaves.

## Cuckooflower



*(Cardamine pratensis)*
Height: 50 cm
April

Cuckooflowers have an upright stem with a crown of delicate pale pink flowers. Each flower has four petals. It's one of the prettiest spring plants and loves growing on damp ground. Orange tip butterflies feed on the flower nectar and lay their caterpillar eggs on the leaves of Cuckooflower.

## Ragged Robin



*(Silene flos-cuculi)*
Height: 75 cm
May

Ragged Robin gets its name from the unusual, frayed look of its bright pink petals. It grows in wet grassland and along ditches, providing nectar for wetland pollinators. It's closely related to Red Campion whose pink flowers appear in May along roadsides and hedgerows and can often flower again later in the summer.

## Tufted Vetch



*(Vicia cracca)*
Height: 60 cm
July

Another pea-relative, Tufted Vetch is a scrambling plant with flowers in blue-violet clusters. It likes to grow in grasslands, using tendrils at the leaf tips to climb over other plants. Tufted Vetch is a favourite wildflower of the Shrill Carder Bee, one of the UK's rarest bee species which is found on the Gwent Levels.

# Summer



## Red Clover



*(Trifolium pratense)*
Height: 40 cm
June

A common grassland plant, Red Clover flowers grow in big pink clusters. The leaves have a familiar 'trefoil' shape, with the leaflets having a distinctive white 'V' mark. Red Clover is also known as 'bee bread' because its staple forage of so many bees, including Carder Bees.

## Oxeye Daisy



*(Leucanthemum vulgare)*
Height: 60 cm
June

Although the flowers are similar, Oxeye Daisies are much bigger and taller than the common lawn Daisies. These are tough plants, which thrive in the harsh conditions of the roadside. The big flowerheads can have many pollinators foraging on it at one time.

## Bee Orchid



*(Ophrys apifera)*
Height: 40 cm
June

One of our most distinctive wildflowers, the Bee Orchid has evolved to resemble a female bee, attracting the male bee which will pollinate the plant. Not only do they look like a female bee they also smell like one, emitting a female bee scent!

## White Clover



*(Trifolium repens)*
Height: 20 cm
July

Another common clover species, apart from the white flowers, the other difference to Red Clover is the shape of the leaves which are much rounder. Don't forget to look out for a lucky four-leaf clover. The flowers are a food plant of the Common Blue Butterfly.

## Bird's-foot Trefoil



*(Lotus sp.)*
Height: 30 cm
June

A member of the pea family with deep yellow flowers that are often tinged with red. It's a low growing creeping plant, very common on grasslands and roadsides. The name 'Bird's-foot' comes from the seed which are said to look like claws. This little flower supports more than 100 insect species!

## Meadow Vetchling



*(Lathyrus pratensis)*
Height: 50 cm
July

Meadow Vetchling is closely related to Tufted Vetch and grows in a similar fashion by scrambling over the grass, however, Meadow Vetchling has bright yellow clusters of flowers. Bee and wasps are particularly attracted to the nectar and pollen offered by this wildflower.

## Cats Ear



*(Hypochaeris radicata)*
Height: 40 cm
July

Cat's Ear's yellow flowers resemble Dandelion, but the flowerhead is smaller and held on a taller stem. The leaves that grow in a rosette at the base of the stem are very hairy. Hoverflies are fond of basking in the sun while they forage on the flowers.



## Selfheal



*(Prunella vulgaris)*
Height: 20 cm
July

Selfheal is a quirky looking creeping wildflower that loves the shorter turf of parks and gardens. Its purple flowers grow in a compact head that pops up above the grass. Selfheal's name comes from its many uses in herbal medicine.

## Common Spotted Orchid



*(Dactylorhiza fuschii)*
Height: 50 cm
July

While orchids are a rare sight, the Common Spotted Orchid can be found along roadsides in verges and grasslands. The flowers grow in a big central spike of purple-pink flowers with purple-blotched leaves in a rosette at the base, from which is gets its name.

## Yarrow



*(Achillea millefolium)*
Height: 50 cm
August

Yarrow has delicate white or pink flowers, grouped together like umbrellas. The leaves are like fine green feathers, but Yarrow is a much tougher plant than these delicate leaves suggest and grow happily with little nutrients. Each plant has lots of tiny flowers which attract a huge diversity of pollinators to its pollen and nectar.

Canllaw Blodau Gwyllt Natur Wyllt
Wildflower Guide

nature isn't neat
natur wyllt

## Knapweed



*(Centaurea nigra)*
Height: 1 m
July

Knapweed flowerheads look like Thistles, however there are no prickles on this wildflower. The purple flowerheads produce more nectar than nearly any other wildflower, making them one of the most important plants for pollinators especially during summer when the spring flowers are over.

## Meadowsweet



*(Filipendula ulmaria)*
Height: 1 m
August

One of the largest grassland wildflowers, Meadowsweet is recognisable by its numerous frothy white flowers. It loves wet areas and grows in big patches along ditches and wet verges. Meadowsweet is the food plant for the caterpillars of several moth species including the emperor moth.

## Harebell



*(Campanula rotundifolia)*
Height: 40 cm
August

One of the last species to flower in the summer, the name Harebell comes from the bell-shaped flower created by the purple petals. It likes to grow in open areas and is equally happy growing on upland heaths and lowland verges.

## Field Scabious



*(Knautia arvensis)*
Height: 1 m
August

Field scabious can be identified by the lilac pom-pom-like flowerheads and its large lobed leaves. The flowerheads sit on tall rough-textured stems that bob in the wind. Bees, butterflies, hoverflies, in fact all pollinators love Field Scabious.



**Did you know?**
There are 250 different microspecies of Dandelion.



## Want to learn more about wildflowers?

Why not try one of the many plant identification apps that are freely available to download on a smartphone. Then you can identify plants on the go.

PlantNet, iNaturalist and PlantSnap are all great apps which will help you identify a plant just from a photo of its flowers or leaves. While not always accurate for rare plants, for most common species they do a fantastic job.

If you want to further your wildflower knowledge there are many additional resources online or for the more dedicated student, books, such as The Wildflower Key by Francis Rose.


**Cefnogir y prosiect gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**

Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig a chaiff ei ariannu gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru.

**The project is supported by the European Agricultural Fund for Rural Development:**

Europe Investing in Rural Areas and is funded by the Welsh Government's Enabling of Natural Resources and Well-being Grant.




# Canllaw Blodau Gwyllt Natur Wyllt

Nid yw'n ymddangos fod unrhyw flodau gwyllt ar ymylon ffyrdd a glaswelltir lle caiff y gwair ei dorri'n aml. Fodd bynnag, pan gânt dyfu a blodeuo cewch eich synnu ar amrywiaeth y blodau gwyllt pan wyddoch beth i edrych amdanynt.

Efallai nad yw rhai blodau gwyllt y planhigion mwyaf swanc ond maent yn rhoi'r ffynhonnell orau o neithdar a phaill fel gwenyn a phili pala.

Mae'r rhan fwyaf o'r planhigion hyn yn rhai lluosflwydd sy'n golygu y byddant yn tyfu'n ôl bob blwyddyn, ond mae'n bwysig gadael iddynt flodeuo a hadu cyn torri gwair. Dyma ganllaw ar rai o'r planhigion cyffredin y gallwch eu gweld yn ein gofodau gwyrdd.

## Y Gwanwyn


### Llygad Ebrill



*(Ficaria verna)*
Taldra: 5 cm
Mawrth

Yn un o'r planhigion sy'n blodeuo gyntaf yn y gwanwyn, mae'n tyfu mewn carpedi melyn o amgylch gwaelod gwrychoedd a choed. Mae gan Lygad Ebrill betalau melyn llachar a dail siâp calon. Mae'r blodau'n rhoi neithdar hollbwysig i gacwn sydd newydd ddod allan o'u gaeafgwsg.

### Briallu



*(Primula vulgaris)*
Taldra: 10 cm
Mawrth

Fel arfer i'w canfod ar hyd gwrychoedd a phonciau, mae gan friallu betalau melyn golau a dail crychog rhwydd eu hadnabod. Mae briallu yn ffynhonnell neithdar ar gyfer pili pala cynnar fel Melyn y Rhafnwydd a Thrilliw Mawr.



### Dant y Llew



*(Taraxacum officinalis)*
Taldra: 30 cm
Ebrill

Mae blodau melyn llachar a'r 'cloc' hadau cyfarwydd yn gwneud Dant y Llew yn flodyn gwyllt rhwydd iawn ei adnabod. Yn cael eu hystyried yn annheg fel chwyn, mae Dant y Llew yn ffynhonnell wych o neithdar a phaill ar gyfer gwenyn a pheillwyr.

### Briallen Fair



*(Primula veris)*
Taldra: 25 cm
Ebrill

Mae'r Friallen Fair yn perthyn yn agos i Friallu ac mae ganddynt yr un dail crychog ond mae'n well ganddynt dyfu mewn glaswelltir heulog. Mae ei flodau melyn yn tyfu mewn clystyrau ar ben coesyn syth ac yn arbennig o addas ar gyfer peillwyr gyda thafod hir, tebyg i'r wenynen blodau traed blewog.

### Blodau Menyn



*(Ranunculus sp.)*
Taldra: up to 60 cm
Mai

Mae Blodau Menyn yn dechrau blodeuo ym mis Mai ac yn gorchuddio'r tirlun yn gyflym mewn blodau lliw aur, fel arfer gyda 5 petal. Mae 3 rhywogaeth gyffredin mewn glaswelltir, Oddfog, Crwydrol a Blodau Menyn y Ddol. Gall Blodau Menyn Crwydrol oroesi'r peiriant torri gwair felly mae'n gyffredin mewn parciau ac ar ymyl ffyrdd.

### Llygad Doli



*(Veronica chamaedrys)*
Taldra: 20 cm
Mai

Mae petalau glas llachar anarferol y Llygad Doli yn ei wneud yn rhwydd gweld y blodau bach ymysg y glaswellt. Mae'n tyfu yma a thraw ymysg glaswellt hir ac mae'n ffynhonnell ardderchog o neithdar ar gyfer gwenyn unigol.

### Marddanhadlen Goch



*(Lamium purpureum)*
Taldra: 20 cm
Ebrill

Mae'r blodyn bach hwn yn blanhigyn blynyddol cyffredin ar ymyl ffyrdd a thir wedi ei droi. Dim ond am un tymor mae'n byw ac mae angen iddo fedru hadu bob blwyddyn os yw planhigion i dyfu y flwyddyn ddilynol. Mae'n blodeuo bron drwy'r flwyddyn gyda 'chapiau' bach coch sy'n cuddio rhwng dail ar ben y planhigyn ac y mae cacwn yn hoff iawn ohonynt.

Ni fydd Marddanadl yn eich pigo fel Danadl Poethion, sydd hefyd yn dda iawn ar gyfer peillwyr. Mae llawer o bili pala – yn cynnwys y Paun a'r Fantell Goch – yn dodwy eu hwyau ar eu dail pigog.

### Blodyn Llefrith



*(Cardamine pratensis)*
Taldra: 50 cm
April

Mae gan Flodau Llefrith goes syth gyda choron o flodau pinc golau cain. Mae gan bob blodyn bedair petal. Mae'n un o blanhigion tlysaf y gwanwyn ac mae wrth ei fodd yn tyfu ar ddaear laith. Mae pili pala blaen oren yn bwydo ar neithdar y blodyn ac yn gosod wyau eu lindys ar ddail y Blodyn Llefrith.

### Carpiog y Gors



*(Silene flos-cuculi)*
Taldra: 75 cm
Mai

Mae Carpiog y Gors yn cael ei enw o olwg flêr anarferol ei betalau pinc llachar. Mae'n tyfu mewn glaswelltir gwlyb ac wrth ymyl ffosydd, gan roi neithdar ar gyfer peillwyr gwlypdir. Mae'n perthyn yn agos i Flodyn y Neidr y mae ei flodau pinc yn ymddangos ym mis Mai ar ochrau ffyrdd ac mewn gwrychoedd a gall yn aml flodeuo eto yn nes ymlaen yn yr haf.

### Ffacbysen y Berth



*(Vicia cracca)*
Taldra: 60 cm
Gorffennaf

Perthynas arall i bys, mae Ffacbysen y Berth yn blanhigyn dringol gyda blodau mewn clystyrau glas-fioled. Mae'n hoffi tyfu mewn glaswelltir, gan ddefnyddio tendrilau ar flaenau'r dail i ddringo dros blanhigion eraill. Mae Ffacbysen y Berth yn hoff flodyn gwyllt gan y Wenynen Gribwr Fain, un o rywogaethau gwenyn prysuraf Prydain sydd i'w gael ar Wastatiroedd Gwent.



## Haf

### Meillionen Goch



*(Trifolium pratense)*
Height: 40 cm
Mehefin

Yn blanhigyn cyffredin mewn glaswelltir, mae blodau Meillion Coch yn tyfu mewn clystyrau pinc mawr. Mae gan y dail siâp cyfarwydd tribys, gyda'r dail â marc 'V' gwyn rhwydd ei adnabod. Caiff Meillion Coch hefyd ei alw yn 'bara gwenyn' oherwydd ei fod yn borthiant sylfaenol llawer o fathau o wenyn, yn cynnwys Gwenyn Cribwr.

### Llygad Llo Mawr



*(Leucanthemum vulgare)*
Taldra: 60 cm
Mehefin

Er fod y blodau yn debyg, mae Llygaid Llo Mawr yn llawer mwy a thalach na llygad y dydd. Maent yn blanhigion gwydn, sy'n ffynnu mewn amodau llwm ar ymyl ffyrdd. Gall llawer o beillwyr fwydo ar y blodau mawr ar unrhyw un amser.

### Tegeirian y Wenwynen



*(Ophrys apifera)*
Taldra: 40 cm
Mehefin

Yn un o'n blodau gwyllt mwyaf neilltuol, mae Tegeirian y Wenwynen wedi esblygu i fod yn debyg i wenyn benyw, gan ddenu gwenyn gorau sy'n peillio'r planhigyn. Yn ogystal ag edrych fel gwenyn benyw, maent hefyd yn arogli fel gwenyn benyw!

### Meillion Gwyn



*(Trifolium repens)*
Taldra: 20 cm
Gorffennaf

Rhywogaeth gyffredin arall o feillion, ac ar wahân i'w blodau gwyn, yr unig wahaniaeth mawr gyda'r Meillion Coch yw siâp y dail sy'n llawer mwy crwn. Peidiwch anghofio edrych am feillion lwcus pedair deilen. Mae'r blodau yn blanhigyn bwyd i'r Pili Papa Glas Cyffredin.

### Pysen y Ceirw



*(Lotus sp.)*
Taldra: 30 cm
Mehefin

Aelod o deulu'r pys gyda blodau melyn tywyll sy'n aml ag ychydig o goch ynddo. Mae'n blanhigyn crwydrol sy'n tyfu'n isel ac yn gyffredin iawn ar laswelltir ac ymyl ffyrdd. Mae'r blodyn bach hwn yn cefnogi mwy na 100 o fathau o bryfed!

### Ytbysen y Ddôl



*(Lathyrus pratensis)*
Taldra: 50 cm
Gorffennaf

Mae Ytbysen y Ddôl yn perthyn yn agos i Ffacbysen y Berth ac yn tyfu mewn modd tebyg drwy ddringo dros y glaswellt. Fodd bynnag mae gan Ytbysen y Ddôl glystyrau o flodau melyn llachar. Caiff gwenyn a chacwn eu denu'n arbennig at neithdar a phaill y blodyn gwyllt hwn.

### Melynydd



*(Hypochaeris radicata)*
Taldra: 40 cm
Gorffennaf

Mae blodau melyn y Melynydd yn edrych yn debyg i Ddant y Llew, ond mae pen y blodyn yn llai ac mae ganddo goes hirach. Mae'r dail sy'n tyfu mewn rhosed ar waelod y goes yn flewog iawn. Mae pryfed hofran yn hoff iawn o fwynhau'r haul pan maent yn porthi ar y blodau.



### Y Feddyges Las



*(Prunella vulgaris)*
Taldra: 20 cm
Gorffennaf

Mae'r Feddyges Las yn flodyn gwyllt crwydrol od yr olwg sy'n hoffi gwair byrrach parciau a gerddi. Mae ei blodau porffor yn tyfu mewn pen bach sy'n dod lan uwchben y glaswellt. Daw'r Feddyges Las o'i llu o ddefnyddiau mewn meddyginiaeth perlysiau.

### Tegeirian Brych



*(Dactylorhiza fuschii)*
Taldra: 50 cm
Gorffennaf

Er fod tegeirian yn bethau prin, mae'r Tegeirian Brych i'w weld ar hyd ymyl ffyrdd ac mewn glaswelltir. Mae'r blodau'n tyfu mewn pigyn canolog mawr o flodau porffor-pinc gyda dail gyda smotiau porffor mewn sbrigyn ar y gwaelod.

### Milddall



*(Achillea millefolium)*
Taldra: 50 cm
Awst

Mae gan y Milddall flodau gwyn neu binc cain, wedi grwpio ynghyd fel ambarel. Mae'r dail yn debyg i blu gwyrdd main ond mae'r Milddall yn blanhigyn llawer mwy gwydn nag mae'r dail cain yn ei awgrymu ac yn tyfu'n hapus heb fawr o faeth. Mae gan bob planhigion lawer o flodau bach sy'n denu amrywiaeth fawr o beillwyr at ei baill a'i neithdar.

### Y Bengaled



*(Centaurea nigra)*
Taldra: 1 m
Gorffennaf

Mae pennau blodau y Bengaled yn edrych fel Esgyll, fodd bynnag nid oes gan y blodyn gwyllt hwn unrhyw bigau. Mae'r blodau porffor yn cynhyrchu mwy o neithdar na bron unrhyw flodyn gwyllt arall, gan eu gwneud yn un o'r planhigion pwysicaf i beillwyr yn arbennig yn ystod yr haf pan fydd blodau'r gwanwyn wedi gorffen.

### Erwain



*(Filipendula ulmaria)*
Taldra: 1 m
Awst

Yn un o flodau gwyllt mwyaf glaswelltir, gellir adnabod yr Erwain drwy ei flodau gwyn niferus. Mae wrth ei fodd mewn ardaloedd gwlyb ac yn tyfu mewn darnau mawr ar hyd ffosydd ac ymyl ffyrdd gwlyb. Erwain yw planhigyn bwyd lindys nifer o fathau o wyfyn yn cynnwys yr ymerawdwr.

### Cloch yr Eos



*(Campanula rotundifolia)*
Taldra: 40 cm
Awst

Yn un o'r rhywogaethau olaf i flodeuo yn yr haf, daw enw Cloch yr Eos o'r blodyn siâp cloch a gaiff ei greu gan y petalau porffor. Mae'n hoffi tyfu mewn ardaloedd agored sych ac mae'r un mor hapus yn tyfu ar rostir uchel ag ar ymylon ffordd ar dir isel.

### Clafrllys y Maes



*(Knautia arvensis)*
Taldra: 1 m
Awst

Gellir adnabod clafrllys y maes drwy'r blodau lelog siâp pom-pom a'i ddail llabedog mawr. Mae pennau'r blodau yn sefyll ar goesau tal sy'n chwifio yn y gwynt. Mae gwenyn, pili pala, pryfed hofran, mewn gwirionedd bob peillwyr wrth eu bodd gyda Chlafrllys y Maes.



**Wyddech chi** fod 250 math o rywogaethau o Ddant y Llew?





## Hoffech chi ddysgu mwy am flodau gwyllt?

Beth am roi cynnig ar un o'r llu o apiau adnabod planhigion sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho i'r ffôn clyfar. Yna gallwch adnabod planhigion wrth fynd o gwmpas.

Mae PlantNet, iNaturalist a PlantSnap i gyd yn apiau gwych fydd yn eich helpu i adnabod planhigyn o ddim ond llun o'i flodau neu ei ddail. Er nad ydynt bob amser yn gywir gyda phlanhigion prin, maent yn gwneud gwaith gwych ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau cyffredin.

Os hoffech gynyddu eich gwybodaeth o flodau gwyllt mae llawer o adnoddau ychwanegol ar-lein neu ar gyfer myfyrwyr mwy ymroddedig, mae llyfrau tebyg i The Wildflower Key gan Francis Rose.